# Eglwys Sant Mihangel Llanfihangel-ar-arth



**Eglwys Sant Mihangel** yw Eglwys y Plwyf a phentref Llanfihangel-ar-arth.

Daw enw y plwyf a'r pentref o enw Eglwys y Plwyf—mae 'Llanfihangel' yn golygu bod yna Eglwys i'r Sant Mihangel (St Michael yn Saesneg) ac mae 'ar-arth' siwr o fod yn golygu ei bod ar ben bryn. ***1.*** *Ydych chi'n gallu gweld pam?*

Mae enw'r Eglwys yn hen iawn—mae'n adeilad Grade II*, yn golygu ei bod yn adeilad o ddiddordeb arbennig, y dylid ei gadw.

***2.*** *(i) Pam mae'r Eglwys yn bwysig?*
*(ii) Beth gallwch chi gweld sydd yn dangos oedran yr Eglwys?*
*(iii) Pa mor hen ydych chi'n credu yw'r Eglwys?*

---

**Eglwys Sant Mihangel,**
**Llanfihangel-ar-arth,**
**Sir Gaerfyrddin,**
**SA39 9JU**

Ficer Bonnie Timothy, Y Ficerdy,
Llanfihangel-ar-arth, SA39 9HU
Ffon: 01559 384 858
bronwentimothy@gmail.com

## Hanes yr Eglwys




Mae safle'r Eglwys yn henach na'r Eglwys ei hun. Mae siwr o fod yn Geltaidd—o'r Oes Haearn.

Rydyn ni'n credu 'roedd y safle yn lle addoli i'r Celtiaid, oherwydd enw'r Eglwys ac y **ddwy garreg cysegredig** (*henebion*) sydd yn yr Eglwys, a ddarganfuwyd ar y safle.

Mae un yn garreg fedd **Rufeinig** o'r 5ed ganrif, a'r llall yn carreg Geltaidd, o bosib carreg allor neu gaead arch a daflwyd allan yn yr 11eg ganrif gan y Normaniaid.

Adeiladwyd yr Eglwys yn yr 13eg ganrif, felly mae'n **ganoloesol.** Adeiladwyd estyniadau yn yr 16eg ganrif a'r 19eg ganrif.




***3.*** *Allwch chi ddod o hyd i'r cerrig cysegredig?*

***4.*** *(i) Pa garreg yw'r garreg* ***Rhufeinig****?*
*(ii) Beth oedd ei phwrpas?*

***5.*** *(i) Pa garreg yw'r garreg* ***Geltaidd****?*
*(ii) Beth oedd ei phwrpas?*

## Tu fewn i'r Eglwys

Mae yna llawer o bethau pwysig ac hanesyddol yn yr Eglwys.



***6.*** *Ydych chi'n gallu cael gafael o'r pethau yma?*

i) Ffenestri lliw

ii) Plac i beilot bu farw yn yr Ail Rhyfel Byd

iii) Plac sydd yn sôn am De America

iv) Enwau Ficeriaid Llanfihangel-ar-arth a Phencader

| | |
|---|---|
| 1660 | OWEN JONES |
| 1661 | GRIFFIN JONES |
| 1669 | MAURICE MEREDITH |
| 1688 | DAVID PARRY |
| 1707 | JOHN COBNER |
| 1730 | JOSHUA JONES |
| 1753 | DAVID HUGHES |
| 1787 | METHUSALEM WILLIAMS |
| 1818 | THOMAS LEWES |
| 1850 | JOHN EDWARDS |
| 1860 | EVAN JONES |
| 1875 | JAMES JONES |
| 1887 | JOHN THOMAS HUGHES |
| 1931 | DANIEL EVANS |
| 1958 | JOHN OLIVER EVANS |
| 1984 | GUY MAXWELL LYON EVANS |
| 1992 | JOHN HUGH ALEXANDER JAMES |
| 2006 | BRONWEN DORIS TIMOTHY |



# Hanes Modern Eglwys Sant Mihangel, Llanfihangel-ar-arth

**Daeth y Rhufeiniaid a Christnogaeth yma**. Roedd yr Eglwys yn bwysig iawn i gymdeithas—fel Eglwys y Plwyf, roedd Eglwys Sant Mihangel yn ganolog i blwyf Llanfihangel-ar-arth. Roedd Eglwysi yn gofalu am dlodion cyn i Harri'r VIII cael gwared a'r mynachlogydd. Roedd crwydriaid yn cael eu cosbi, ac erbyn Oes Fictoria, roedd tlodion yn cael eu hanfon i'r tlotai cas.

**Terfysgoedd Beca** oedd pan oedd ffermwyr yn dinistrio tollbyrth Gorllewin Cymru. Roeddynt yn dioddef o dlodi a'n ofni'r tlotai, felly doedden nhw ddim yn gallu talu'r tollau ar y ffyrdd. Daeth yr enw 'Rebecca' o'r Beibl, Genesis 24:60.

Daeth y terfysgoedd i Llanfihangel-ar-arth yn 1843, pan anfonwyd llythyrau bygythiol gan 'Eliza' a chasglwyd 150 o ddynion yn y nos (mewn dillad menywod neu wedi cuddio eu hwynebau) i ddinistrio tollborth Llanfihangel-ar-arth. Ymunon nhw gyda 2000 o bobl a wnaeth dinistrio Tloty Caerfyrddin—roedd rhaid anfon y fyddin i geisio rheoli'r torf.

***7.** Beth yw: (i) crwydryn? (ii) tollborth? (iii) tloty?*



**Brad y Llyfrau Gleision** oedd arolwg mewn i addysg yng Nghymru yn 1847. Roedd yn 'brad' oherwydd wnaeth y llyfrau ymosod ar y iaith Cymraeg a menywod Cymru ***8.** Pam?*


Ysgrifennodd y Ficer Enoch James iddynt mai bai tlodi oedd fod addysg gwael yng Nghymru, ac mai dim ond Ysgolion Sul oedd yn addysgu'r plant.

Aeth **Sarah Jacob** i'r Ysgol Sul. Cafodd ei geni yn 1857, i Evan ac Hannah Jacob o Lethrneuadd Uchaf. Daeth hi'n enwog fel yr 'Welsh Fasting Girl'.

Yn 1867, dwedodd Sarah doedd hi ddim yn bwyta. Aeth y Ficer Evan Jones i'w hymweld a hi ac ymunodd hi a'r Eglwys. Daeth y Ficer i credu bod Sarah yn wyrth. Ysgrifennodd llythyr i'r papurau newydd yn gwahodd dynion meddygol i astudio hi. Rhoddodd y doctoriaid '24-hour watch' ar Sarah a bu farw hi yn fuan, yn 1869. Honnodd hi nad oedd hi wedi bwyta am 113 wythnos.


Aeth ei rhieni i'r carchar am ddynladdiad - ei thad am 12 mis, ac ei mam am 6 mis. Claddwyd Sarah Jacob a'i theulu ym mynwent yr Eglwys.

***9.** Pam oedd pobl yn ei chredu hi?*



Ar ôl ganrifoedd o dlodi, daeth y rheilffyrdd â mwy o waith ac arian i'r ardal. Adeiladwyd Rheilffordd Pencader yn 1864 a Rheilffordd Llanfihangel-ar-arth yn 1869—rhoddodd Evan Jones y bai ar y rheilffyrdd am farwolaeth Sarah Jacob, oherwydd wnaethon nhw lledaenu newyddion o'i chyflwr hi. Ond death y rheilffyrdd a gwaith—pan cauoedd y rheilffyrdd, oedd rhaid i lawer o ddynion yr ardal mynd i weithio yn Ne Cymru, fel yn y pyllau glo.

Roedd hefyd rhaid i ddynion lleol mynd i ryfel. Lladdwyd 17 dyn ifanc yn y Rhyfel Byd 1af, sydd yn cael eu cofio ar Cofeb Pencader, gyda 4 dyn a laddwyd hefyd yn yr Ail Ryfel Byd. Mae plac yn Eglwys Sant Mihangel hefyd yn cofio peilot a lladdwyd yn yr Ail Ryfel Byd:




Adeiladwyd ysgol Llanfihangel-ar-arth yn 1864. Roedd gyda'r ysgol lle i 105 o blant—adeiladwyd estyniadau yn ddiweddarach. Dathlwyd ei ganmlwyddiant yn 1964. Ymgyrchodd Cymdeithas yr Iaith yn erbyn cynlluniau'r cyngor i gau'r ysgol. Cafodd yr ysgol ei cau yn 2003. Nawr mae'r adeilad yn cael ei ddefnyddio fel neuadd y pentref.

www.santmihangelllanfihangelararth.org

CRONFA DREFTADAETH
HERITAGE FUND